

(parhâd)

Gwnaeth hyn yn llawn wrth farw trosom ar y groes, ac wedi'i atgyfodiad a'i esgyniad buddugoliaethus mae Iesu'n byw am byth rwan i weddio trosom ni. (Hebreaid 7:25) Rheswm da iawn i ni ddathlu'r dyrchafael oherwydd gweddio mae Iesu ar i ni gael ei nerth i ymateb i'w orchymyn ac i fod yn drugarog fel ei Dad!

Esgynnodd mewn gogoniant llawn,
Goruwch y nefoedd fry,
Ac yno mae, ar sail ei lawn,
Yn eiriol drosom ni. (CFF 543)

Aneurin

Cofion a Chyfarchion

- Parhawn i gofio am Elizabeth Hughes (Llansannan) yn Ysbyty Bae Colwyn; Glenys Jones (Llanefydd) yn Ysbyty Rhuthun; Morfudd Roberts (Llanefydd) yn Ysbyty Glan Clwyd; a Kitty Parry (Llanefydd) yn yr Inffirmari. Cyflwynwn y pedair i ofal yr Arglwydd, gan hyderu y byddant yn cael eu diogelu a'u cadw'r dyddiau hyn. Diolchwn am y gofal y maen nhw'n ei dderbyn yn y gwahanol ysbytai ac am ofal a chefnogaeth eu teuluoedd hefyd. Mae eraill sydd heb fod cystal eu hiechyd ac eraill yn dal i wella yn dilyn cyfnod o salwch. Parhawn i gofio amdanynt oll ac am y rhai hynny sy'n galaru am anwyliaid. Mae eraill sy'n mynd trwy gyfnod digon anodd yn eu bywyd hefyd oherwydd amrywiol amgylchiadau. Cyflwynwn hwy oll i ofal Duw.
- Llongyfarchiadau i Rhys ac Anna Williams (Llanefydd) ar enedigaeth mab. Dymunwn fendith ar y teulu bach, ac ymunwn gyda hwy i roi diolch i Dduw am ei ddaioni yn eu hanes.

I ddod

- **DARLITH "MARI JONES AC ANN GRIFFITHS – Y BEIBL, YR EMYN A THOMAS CHARLES"** gan yr Athro E. Wyn James yn Ffestri Llansannan nos Lun, Mehefin 1af am 7.30. Croeso cynnes i bawb.
- **PENWYTHNOS MERCHED** yn y Bala ar Mehefin 12fed–13eg. Cysylltwch â'r Coleg i gael ffurflen gofrestru: colegybala@ebcpcw.org.uk / 01678 520565. Mae angen archebu lle erbyn Mai 29ain.
- **CYMANFA GANU ANNIBYNWYR DYFFRYN CLWYD** dydd Sul, Mehefin 14eg yng Nghapel Lôn Swan, Dinbych am 2.30. Cymanfa o emynau plant ac oedolion o Ddetholiad 2014-15. Arweinydd: Nia Evans, Talwrn. Croeso cynnes i bawb.
- **YSGOL HAF Y WEINIDOGAETH IACHAU** ar Mehefin 29ain–Gorffennaf 1af yng Nghefn Lea, Dolfor, Y Drenewydd SY16 4AJ. Siaradwr gwadd: Y Parch. Wes Sutton, Cyfarwyddwr Acorn Christian Healing Foundation. Cysylltwch â Marian Lloyd Jones (01978) 846151 / geraint.w.jones@btinternet.com am fwy o wybodaeth.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 17^{eg} Mai 2015

Darlleniad y Dydd

Luc 6:27-36

(BCND tud.69 / BCN: tud.63)

www.eglwysibroaled.com / www.rhaglendorcas.com / www.llanw.org / www.dawncymru.org

Bore da! Croeso i Sul arbennig sef y Sul wedi dydd Iau Dyrchafael. Does dim llawer o ddathlu ar yr Ŵyl hon erbyn hyn ond nid yw hynny'n tynnu dim oddi ar ei gwerth. Mae'n Ŵyl ganolog i fywyd yr Eglwys trwy'r byd – a'r nef! Codi eu golwg a wnaeth y disgyblion wrth i'r Arglwydd ddyrchafu yn ôl at ei Dad a chodi ein golygon a wnawn ninnau hefyd heddiw i weld Iesu a'i ddisgwyl yn ôl i deyrnasu'n llawn a gweledol. Dim lecsiwn na dewis – dyma sut y bydd hi – Iesu yn ei Arglwyddiaeth gogoneddus yn dod 'drachefn' fel yr addawodd i'n 'cymryd ni ato ef ei hun'. (Ioan 14: 3) Ei addoli yw ein braint ac wrth ei addoli gyda'n gilydd cawn weld mwy a mwy o'i ogoniant a mawredd ei waith o'n plaid.

Rwy'n dysgu llawer am blant y dyddie 'ma. Peth mawr ydi bod yn daid – mae dyn yn sylwi mwy o lawer ar ddatblygiad yr wyresau nag oeddwn hefo 'mhlant fy hun. Mae rhai ohonoch yn hen-neiniau ac yn hen-deidiau erbyn hyn a llongyfarchiadau mawr i bob un ohonoch. Tybed sut 'dach chi yn gweld pethe hefo'r genhedlaeth nesa' ma yn eich teulu tybed? Ydach chi'n sboelio'r rheini'n waeth fyth?

Yn y darlleniad heddiw mae Crist yn sôn am ei Dad ac am un nodwedd arbennig yng nghymeriad ei Dad, sef caredigrwydd neu drugaredd. Mae'n siŵr mai dyma sy'n gwneud bod yn daid yn gymaint o hwyl! Mae'n llawer haws bod yn drugarog wrth eich wyresau a'ch wyrion nad ydi hi hefo'ch plant! Cewch roi y fferen siocled iddyn nhw cyn cinio a gadael iddyn nhw wyllo dwy raglen Peppa Pinc yn syth ar ôl ei gilydd! Y nodwedd o gariad hael sydd yn rhan o gymeriad pob tad da a thaid caredig yw'r nodwedd a ddylai fod yn perthyn i bob Cristion. Ond ergyd y darn yma o'r Bregeth ar y Mynydd yw fod Iesu yn gofyn i ni fod fel hyn, nid yn unig hefo'r rhai agosaf atom ond hefo'r rhai sydd yn ein casáu ni ac yn ein camdrin. Dyma beth ydi her. Mae Iesu'n gofyn i ni wneud y pedwar peth: caru ein gelynion, gwneud daioni i'r rhai sy'n ein casau, bendithio'r rhai sy'n ein melltithio, a gweddio dros y rhai sy'n ein cam-drin. (Luc 6: 27) Dyma sut y byddwn yn dangos y caredigrwydd tadol a ddangosodd Duw tuag atom ni.

Ond sylwch nad ydi Iesu'n gofyn i ni wneud dim byd nad ydi o wedi ei wneud ei hun yn barod, ac er ein mwyn ni. Pwy arall a fedrodd wneud y pedwar peth yma yn gyflawn a hyd yr eithaf: caru gelyn, gwneud da i'r rhai a oedd yn ei gasáu, bendithio'r rhai oedd yn ei feltithio a gweddio dros y rhai a oedd yn ei gamdrin?

(parhâd ar y dudalen gefn)

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 17^{eg} • **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn Williams, a bydd Rhodri yn pregethu.
- Mawrth – 19^{eg} • **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- Iau – 21^{ain} • **Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15.
- Gwener – 22^{ain} • **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc oed uwchradd yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15.
- Sul nesaf – 24^{ain} • **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Ben Nuss, a bydd Aneurin a Rhodri yn arwain adolygiad o'r gyfres ddiwethaf ar Y Deg Gorchymyn.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 17^{eg} Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Sul nesaf – 24^{ain} Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Fe wneir casgliad arbennig tuag at Apêl Nepal yn ystod yr oedfa. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Llansannan

- Sul yma – 17^{eg} Bydd Aneurin yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion am 11.10.
- Llun – 18^{fed} Bydd cyfarfod yn y Granar am 7.30 i drafod sut orau i barhau i ddarparu Cinio Jangl. Croeso i unrhyw un sydd â diddordeb.
- Sul nesaf – 24^{ain} Bydd Mr Trebor Roberts yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion am 11.10.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma – 17^{eg} Cynhelir Sasiwn y Plant yng Nghapel Peniel am 2.00. Yr arweinydd fydd Mrs Mair Beech Williams. Bydd y casgliad yn mynd tuag at waith y Samariaid.
- Sul nesaf – 24^{ain} Bydd Mr Trebor Roberts yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma – 17^{eg} Cynhelir Sasiwn y Plant yng Nghapel Peniel am 2.00. Yr arweinydd fydd Mrs Mair Beech Williams. Bydd y casgliad yn mynd tuag at waith y Samariaid.
- Sul nesaf – 24^{ain} Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00. Ni fydd Ysgol Sul yn Saron.

Henllan a Groes

- Sul yma – 17^{eg} Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00. Cynhelir Sasiwn y Plant yng Nghapel Peniel am 2.00. Yr arweinydd fydd Mrs Mair Beech Williams. Bydd y casgliad yn mynd tuag at waith y Samariaid.
- Sul nesaf – 24^{ain} Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 17^{eg} Bydd Rhodri yn arwain oedfa deulu i'r daith yn Llanefydd am 10.00 ac fe wneir casgliad arbennig tuag at Apêl Nepal yn ystod yr oedfa. Cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion yng Nghefn Berain am 2.00.
- Sul nesaf – 24^{ain} Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.

Darllenid Wythnos Nesaf

Genesis 18:13-23 (BCND tud.14 / BCN: tud.13)